



Papurau'r Pwyllgor Cynghori Ar Fwyd

Cyfarfod Agored

30 Tachwedd 2017

Cyfarfod Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru

30 Tachwedd 2017

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Tŷ Southgate, Wood Street,
Caerdydd, CF10 1EW

Agenda Cyfarfod Agored

Cofrestru a phaned	09:15 – 09:20
Cyflwyniad i Ddirprwy Gadeirydd yr ASB Laura Sandys	09:20 – 09:25
Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	09:25 – 09:30

Paratoi ar gyfer eitemau i'w trafod gan y Bwrdd

Rheoleiddio Ein Dyfodol – yr ASB fel Rheoleiddiwr Cynorthwyol o dan Gynllun y Prif Awdurdod Papur FSAW 17/11/05	09:30 – 10:00
Rheoleiddio Ein Dyfodol – Newidiadau Segmentu a Sicrwydd y cysyniad o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig Papur FSAW 17/11/06	10:00 – 10:30
Adroddiad Cadw Gwyliadwriaeth Papur FSAW 17/11/08	10:30 – 10:45
Adroddiad Gwyddor Gymdeithasol Papur FSAW 17/11/09	10:45 – 11:00
Diweddariad ar yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd Papur FSAW 17/11/04	11:00 – 11:30
Egwyl	11:30 – 11:40
Lleihau Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Papur FSAW 17/11/07	11:40 – 11:55

Materion y pwyllgor

Y cyfarfod agored diwethaf a materion sy'n codi
Papur FSAW 17/11/01 11:55 – 12:05

Adroddiad gan y Cadeirydd
Papur FSAW 17/11/02 12:05 – 12:20

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr
Papur FSAW 17/11/03 12:20 – 12:35

Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor 12:35 – 12:45

Sesiwn Holi ac Ateb Cyffredinol 12:45 – 13:00

Unrhyw fater arall 13:00

Diwedd y cyfarfod agored 13:10

Papurau i'w nodi – ar gael i'w gweld ar www.food.gov.uk – cliciwch ar 'Cymraeg'

Amserlen o Gyfarfodydd y Pwyllgor

Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

Bywgraffiadau Aelodau WFAC

Mae fersiynau llawn y papurau ar gael drwy:

<https://www.food.gov.uk/about-us/our-board/meetings/2017/010117/board-meeting-agenda-6-december-2017-0> (Saesneg yn unig)

FSAW 17/11/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – Tachwedd 2017

1. Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi 2017

1.1 Rhoddodd Gadeirydd y Bwrdd ddiweddariad ar waith ymgysylltu diweddar a chyfarfodydd Gweinidogol, gan gynnwys cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, a'r Gweinidog dros Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice. Trafodwyd cyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar baratoi i Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), Fipronil mewn wyau, teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai, a datblygu'r Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cael ymweliad cynhyrchiol ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Ngogledd Cymru fis Awst, ac y cafodd argraff dda o'r dulliau arloesol roeddent yn eu defnyddio i leihau defnydd o wrthfotigau yn y gadwyn fwyd i reoli eu stoc.

2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd

2.1 Yn y cyfarfod ym mis Medi 2017, aeth y Bwrdd ati i ystyried y papurau canlynol:

- **Ymadael â'r UE**

Roedd y papur yn nodi'r dull arfaethedig y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n adran anllywodraethol annibynol, yn paratoi wrth i'r Deyrnas Unedig Ymadael â'r UE yn 2019.

- **Diweddariad ar Les Anifeiliaid**

Trafododd aelodau'r Pwyllgor y papur a oedd yn rhoi diweddariad ar weithgarwch yng Nghymru a Lloegr o ran rhaglen "**Rhwystro, Atal, Canfod, Gorfodi**" yr ASB i wella safonau lles anifeiliaid mewn lladd-dai.

2.2 Mae cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd mis Medi 2017, sy'n rhoi mwy o gyd-destun, yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod ar gael drwy:

<https://www.food.gov.uk/about-us/our-board/meetings> (Saesneg yn unig)

3. Materion eraill

3.1 Cefais gyfle i ymuno â 'cwrdd i ffwrdd' y Bwrdd ym mis Hydref, lle trafodwyd cyfrifoldebau'r ASB ar draws y tair gwlad ac Ymadael â'r UE, ynghyd ag effaith ar lywodraethu a rôl y Bwrdd. Cafwyd trafodaeth anffurfiol am raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol hefyd, cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr mewn perthynas ag 'Awdurdodau Cynradd a'r ASB fel 'rheoleiddiwr cefnogol' dan Ddeddf Menter (2016)' a 'Newidiadau i segmentu a datblygu sicrwydd', gan gynnwys y cysyniad o 'archwiliwr rheoleiddio ardystiedig'.

3.2 Ym mis Hydref, cynhaliais ddiwrnod datblygu i aelodau'r Pwyllgor yn Baraka Foods, gweithredwr busnes bwyd sy'n arbenigo mewn cynhyrchu bwyd i sefydliadau

arlwyo. Roedd y diwrnod yn addysgiadol iawn, ac roedd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor weld agwedd wahanol ar y diwydiant cynhyrchu bwyd.

3.3 Mae Heather Hancock wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cymheiriaid perthnasol yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas ag adolygiad posibl o'r Pwyllgorau Cyngori ar Fwyd.

Dr Ruth Hussey CB, OBE
Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru
Tachwedd 2017

Papur FSAW 17/11/03
I'w drafod
Diweddariad gan y Cyfarwyddwr

1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 20 Medi 2017.

1.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 17/09/03) sydd ar gael drwy <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/cereportsept2017.pdf> (Saesneg yn unig)

2. Adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

Ymgysylltu'n allanol

2.1 Rwyf wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 14 Medi 2017:

- 21 Medi – cyfarfod â Christianne Glossop – Prif Swyddog Milfeddygol
- 26 Medi – cyfarfod cyswllt â Llywodraeth Cymru
- 27 Medi – cyfarfod â Rebecca Evans, Heather Hancock a Ruth Hussey
- 20 Hydref – cyfarfod â DPPW
- 24 Hydref – mynychu Uwchgynhadledd Lysiau Cymru
- 2 Tachwedd – mynychu Cynhadledd Flynyddol Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
- 8 Tachwedd – cyfarfod ag Andrew Slade, Llywodraeth Cymru
- 9 Tachwedd – mynychu cynhadledd Hybu Cig Cymru
- 15 Tachwedd – ymweld â lladd-dy Dovecote Park
- 27 Tachwedd – mynychu Ffair Aeaf Frenhinol Cymru

Penodiad yn yr ASB

2.3 Rwy'n falch i roi gwybod y byddaf yn parhau yn fy swydd fel Cyfarwyddwr Dros Dro i'r ASB yng Nghymru tan fis Chwefror 2019, wrth i Nina Purcell barhau yn ei gwaith fel Uwch Swyddog Cyfrifol i'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

Penodiadau Gweinidogol

2.4 Ar 3 Tachwedd, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru newidiadau yn ei dîm Gweinidogol. Bydd cyfrifoldeb dros yr Asiantaeth Safonau Bwyd nawr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr ASB a Chynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru

2.5 Mae'r ASB wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â [Chynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru](#) (WLBP), ar ôl iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â meini prawf ennill cydnabyddiaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

2.6 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gosod egwyddorion cyffredinol cydweithio, cydweithredu, swyddogaethau a chyfrifoldebau, sy'n cefnogi'r broses ennill cydnabyddiaeth sy'n cynnwys yr ASB a WLBP. Yn benodol, mae'n darparu fframwaith penodol ar gyfer cyflwyno ennill cydnabyddiaeth i fusnesau sy'n cydymffurfio ac sy'n aelodau o [Gynllun Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru](#), a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2018.

2.7 Bydd aelodau sy'n cydymffurfio â chynllun Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru yn gymwys am amllder rheolaethau swyddogol is. Nod y newid hwn yw helpu i leihau baich rheolaethau swyddogol ar fusnesau bwyd anifeiliaid sy'n cydymffurfio, a thargedu adnoddau yn y meysydd sydd â'r risg uchaf i fwyd anifeiliaid, ac felly i ddiogelwch bwyd.

Gorfodi

2.8 Mae manylion erlyniadau safonau, hylendid a diogelwch bwyd llwyddiannus diweddar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael drwy:
<https://www.food.gov.uk/wales/cymru/newyddiondatgan/newyddion/2015/14652/food-standards-agency-publishes-food-law-prosecutions-database>

3. Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar 8 Mawrth, rwyf wedi ymrwmo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 5 Rhagfyr – mynychu cyfarfod Brexit ac Economi Cymru
- 6 Rhagfyr – mynychu cyfarfod Parodrwydd y Sector â Llywodraeth Cymru
- 12 Rhagfyr – Gweithgor Cymru Courtald 2025
- 9 Medi – cyfarfod â Christianne Glossop – Prif Swyddog Milfeddygol

Richard Bowen
Cyfarwyddwr Dros Dro, ASB Cymru
Tachwedd 2017